

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad ar
Arolygiad yn Seiliedig ar Risg o
Wasanaethau Plant
ac
Arolygiad Gwerthuso Perfformiad
Gwasanaethau Oedolion

Cyflwyniad

Ym mis Chwefror 2020, cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Phrif Swyddog Gweithredol, uwch-swyddogion a uwch-aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Diben y cyfarfod oedd trafod methiannau sylweddol yng ngwasanaethau plant Wrecsam a cheisio eglurhad gan yr awdurdod lleol am ei gynlluniau ar gyfer gwella.

Gwnaethom bwysleisio'r angen am newid brys yn niwylliant y gwasanaethau plant er mwyn sicrhau bod pawb yn atebol am eu camau gweithredu a bod plant yn parhau i fod wrth wraidd ymarfer gofal cymdeithasol.

Diben y gweithgarwch arolygu yn seiliedig ar risg hwn a gwaith monitro blaenorol oedd edrych ar y cynnydd y mae gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ei wneud ar ei daith tuag at wella. Gwnaethom edrych am dystiolaeth o ddysgu i ddangos y gall gwelliannau i'r gwasanaeth gael eu cynnal yn y dyfodol.

Treuliodd tîm o arolygwyr saith diwrnod gwaith yn arolygu gwasanaethau cymdeithasol plant a thri diwrnod yn arolygu gwasanaethau cymdeithasol oedolion rhwng 12 a 23 Hydref 2020. Gwnaethom hefyd fonitro gwasanaethau plant drwy gydol y flwyddyn flaenorol, gan gwrdd ag uwch-reolwyr ac adolygu data perfformiad.

Yn ystod ein gweithgarwch arolygu a monitro, roedd pawb wedi ymgysylltu a chydweithredu'n dda iawn â ni, ac roeddem o'r farn bod hyn yn adlewyrchu awydd yr awdurdod lleol i wneud yn well dros bobl Wrecsam. Rydym yn cydnabod yr anawsterau ychwanegol y mae'r awdurdod lleol yn eu hwynebu wrth reoli gwasanaethau yn ystod pandemig a diolchwn i bawb a gymerodd ran yn y gwaith hwn a'i gwneud yn bosibl.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi tystiolaeth a dadansoddiadau o adolygiadau o ffeiliau achos, gwaith darllen, cyfweiliadau, trafodaethau a gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd yr amrywiaeth o bobl y gwnaethom gyfweled a nhw yn gynnwys arweinwyr, rheolwyr ac ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid o wasanaethau iechyd lleol a'r trydydd sector. Gwnaethom siarad â rhai o'r bobl ifanc, teuluoedd, oedolion a gofalwyr sy'n cael cymorth neu ofal gan yr awdurdod lleol, a gwranddo arnynt.

Mae arddull yr adroddiad yn rhan o'n rhaglen beilot newydd ar sicrwydd. Mae'r arddull yn gryno ac yn uniongyrchol yn fwriadol, gan gydnabod yr holl bwysau o gyfeiriadau croes sydd ar bawb ym maes gofal cymdeithasol a'r holl wybodaeth rydym i gyd yn ceisio ei deall bob dydd. Dylai eglurder ein neges helpu i lywio gwelliannau.

Camau nesaf:

Bydd AGC yn parhau i fonitro ac yn dychwelyd i ail-arolygu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o fewn 12 fis.

Diolchwn i bawb a fu'n gweithio gyda ni i gynhyrchu'r adroddiad hwn a helpu i gefnogi gwelliant yng ngwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Gwasanaethau Cymdeithasol Plant: Arolygiad yn Seiliedig ar Risg

Crynodeb:

Mae amrywiaeth y gwaith a wnaed gan y Prif Swyddog Gweithredol i wella gwasanaethau cymdeithasol plant yn Wrecsam mewn cyfnod cymharol fyr yn rhywbeth i'w ganmol. Ar ôl nifer o flynyddoedd pan fu ansawdd gwasanaethau plant yn Wrecsam yn amrywio, mae camau gweithredu pendant a her adeiladol y Prif Swyddog Gweithredol wedi creu'r amgylchedd angenrheidiol er mwyn cyflawni newid cadarnhaol sylweddol.

Mae aelodau etholedig wedi dangos eu cefnogaeth gorfforaethol ar gyfer gwasanaethau plant drwy gyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol ac wedi codi cyflogau gwaith cymdeithasol yn gymesur â'r farchnad gofal cymdeithasol ehangach. Mae'r camau gweithredu hyn wedi dechrau denu gweithwyr proffesiynol profiadol i Wrecsam.

Gan weithio mewn partneriaeth â phobl ar draws y gwasanaeth, aelodau etholedig a phartneriaid allanol, mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi sefydlu bwrdd gwelliant cyflym effeithiol. Gyda chymorth gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol dros dro profiadol o awdurdod cyfagos, mae'r bwrdd wedi llunio asesiad cywir o wasanaethau'r awdurdod lleol a chynllun clir ar gyfer gwella.

Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r amser a'r ymdrech parhaus sydd eu hangen i gyflawni newid cynaliadwy mewn gwasanaethau. Mae'n gyfle i dorri'r cylch o hanes o welliant dros dro a dirywiad pellach a oedd yn rhoi plant mewn perygl, yn digalonni staff ac yn cyfrannu at sefyllfa lle roedd swyddi gwag mor annymunol nad oedd yn bosibl llenwi llawer ohonynt.

Mae'r tîm rheoli a recriwtiwyd yn ddiweddar yn dod â lefel uchel o brofiad a sgiliau i Wrecsam ac mae'r aelodau'n deall y disgwyliadau sydd arnynt i lywio gwelliannau angenrheidiol ar draws gwasanaethau plant. Mae'n rhaid i'r arweinwyr roi amser a chymorth iddynt i'w galluogi i lwyddo.

Yn y 32 o ffeiliau achos y gwnaethom eu hadolygu yn ystod yr arolygiad hwn, ni welsom fod unrhyw blant mewn perygl uniongyrchol o niwed. Mae hyn yn welliant sylweddol ar ganfyddiadau yn ein gweithgarwch monitro a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae llawer o feysydd gweithredol nad ydynt wedi gwella o hyd a gwelsom amrywiadau eang yn safonau ymarfer gwaith cymdeithasol o hyd, gan gynnwys; bylchau mewn cofnodion gwaith cymdeithasol, dadansoddiadau a threfniadau gwneud penderfyniadau.

Roedd ansawdd cynlluniau ar gyfer plant y mae angen gofal a chymorth a diogelwch arnynt yn parhau i fod yn rhy amrywiol ac yn aml nid oeddent yn ddigon clir. Mae'n rhaid i reolwyr sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gweld plant o fewn amserlenni statudol, mae'n rhaid cofnodi barn y plant ac mae'n rhaid casglu'r canlyniadau y mae'r plant am eu cyflawni.

Nid oedd gwaith gyda theuluoedd yn ddigon cadarn i gefnogi newid cadarnhaol. Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i blant aros yn ddiogel yn eu teuluoedd, mae'n rhaid gweld

rhieni fel partneriaid cyfartal ac mae'n rhaid cytuno ar nodau realistig ar gyfer gwella a sicrhau eu bod yn eu deall.

Er gwaethaf cynnydd cyflym ac ystyrlon mewn amgylchiadau anodd iawn, rydym yn ystyried bod gwasanaethau cymdeithasol plant yn parhau i fod yn annigonol ond gyda rhagolygon ar gyfer gwella sydd wedi gwella'n sylweddol.

Mae ein prif ganfyddiadau wedi'u cofnodi yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014.

Pobl – llais a dewis

Cryfderau:

1. Arweinyddiaeth gref a hyderus gan arweinwyr ac uwch-reolwyr sy'n dangos dealltwriaeth gywir o'u gwasanaethau a meysydd y mae angen eu gwella.
2. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ac yn ymrwymedig i gomisiynu a hyrwyddo eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant yn Wrecsam.
3. Mae llwythi achosion ymarferwyr wedi lleihau ac maent yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi gan dîm rheoli sydd a'r sail gwerthoedd, y sgiliau a'r profiad i lywio gwelliannau mewn ymarfer.
4. Capasiti ychwanegol a grëwyd gan y tîm rheoli i ddatblygu darnau o waith a oedd heb eu cwblhau a chau pen y mwdwl, a sicrhau nad yw plant a theuluoedd yn destun ymyriadau gan asiantaethau statudol am gyfnod hirach nag sydd angen.

Yr hyn sydd angen ei wella:

1. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod trefniadau cadw cofnodion yn effeithiol a bod yr ymarfer yn canolbwyntio ar bob plentyn unigol a'i fod yn amlwg ac yn weladwy yn ei ffeil achos ei hun.
2. Mae'n rhaid i reolwyr ac ymarferwyr sicrhau bod lleisiau a safbwyntiau plant a'u teuluoedd wrth wraidd eu hasesiadau, ac yn llywio gwaith cynllunio gofal a chymorth.
3. Mae'n rhaid i reolwyr ac ymarferwyr sicrhau bod penderfyniadau yn amserol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n rhaid i ffeiliau achos gynnwys y rhesymeg dros benderfyniadau a wnaed.
4. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr yn deall y ddyletswydd statudol i gynnig asesiadau i ofalwyr a, lle y bo'n briodol, yn darparu cymorth i hyrwyddo llesiant gofalwyr, a'u bod yn cael eu cefnogi i fodloni'r ddyletswydd statudol hon.
5. Mae'n rhaid i reolwyr sicrhau goruchwyliaeth a chymorth rheoli o ansawdd uchel ar draws pob maes gwasanaeth. Dylai sesiynau goruchwyllo gynnig cyfle ar gyfer myfyrio personol a phroffesiynol, her adeiladol a gosod cyfeiriad.
6. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi blaenoriaeth uwch i'w broses uwchgyfeirio ar gyfer Swyddogion Adolygu Annibynnol. Dylid datrys diffygion a nodwyd gan Swyddogion Adolygu Annibynnol yn effeithlon ac yn effeithiol er budd y plentyn.

7. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn cael cymorth digonol a chyson. Roedd rhai oedolion ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn teimlo bod cymorth a chyswllt yn anghyson ac yn annigonol.

Llesiant

Cryfderau:

1. Mae partneriaid a gweithwyr proffesiynol yn gwneud atgyfeiriadau amserol a phriodol at y gwasanaethau cymdeithasol ac yn cael adborth ar y pryderon maent yn eu codi.
2. Mae'n amlwg bod gwyliadwriaeth, amseroldeb a goruchwyliaeth y rheolwyr er budd y plant a'r bobl ifanc wrth iddynt ddod i sylw'r gwasanaethau cymdeithasol am y tro cyntaf.
3. Mae atgyfeiriadau amddiffyn plant yn sbarduno systemau diogelu yn briodol ac yn cefnogi trefniadau rhannu gwybodaeth berthnasol rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau plant.
4. Mae ymarferwyr yn nodi buddiannau ymarferol gweithio ystywyth a defnyddio technoleg i wella eu cydbwysedd bywyd a gwaith eu hunain.

Yr hyn sydd angen ei wella:

1. Mae'n rhaid i fanylder ac effaith goruchwyliaeth rheolwyr fod yn ddigonol i osgoi oedi, sicrhau bod cynlluniau plant yn datblygu a bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed y gellir ei rhagweld.
2. Mae'n rhaid i reolwyr sicrhau bod pryderon cronol am esgeuluso plant yn cael eu cydnabod bob amser ac yn arwain at ymyriadau effeithiol er mwyn atal niwed gan esgeulustod hirdymor.
3. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei ymateb i blant y mae perygl y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt yn gwella fel bod y ffactorau sy'n golygu eu bod yn agored i niwed yn cael eu cydnabod yn llawn a bod gwaith ymgysylltu yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r person ifanc.
4. Dylai'r awdurdod lleol wella dealltwriaeth o ran adnabod a rheoli ymddygiadau peryglus plant eu hunain.
5. Mae'n rhaid i reolwyr ac ymarferwyr sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o'r plant y maent yn gweithio gyda nhw gan gynnwys eu cefndir a'u sefyllfa bresennol er mwyn sicrhau parhad cynllunio gan gynnwys cynllunio wrth gefn.
6. Nid yw amseroedd aros ar gyfer cymorth therapi galwedigaethol yn bodloni bwriadau Deddf 2014 ac mae'n rhaid i hyn wella er mwyn atal plant a theuluoedd rhag cyrraedd sefyllfa argyfyngus.

Atal

Cryfderau:

1. Mae ymyrryd yn gynnar yn unol â gofynion Deddf 2014 wedi bod yn sbardun strategol pwysig ar gyfer yr awdurdod lleol. Mae ehangu dewis ac argaeledd seibiannau byr ar gyfer plant anabl yn faes y mae'r awdurdod lleol yn ceisio ei ddatblygu.
2. Mae'r gwasanaeth cymorth, cyngor a gwybodaeth yn weithredol ac mae'n cyfeirio at wasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal. Mae rheolwyr wrthi'n adolygu'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth cymorth, cyngor a gwybodaeth gyda'r nod o ailymgysylltu â phartneriaid sydd wedi symud i ffwrdd o'r gwasanaeth.
3. Mae effaith problemau iechyd meddwl mewn teuluoedd ar lesiant plant yn cael ei gydnabod. Mae cyflwyno arbenigwr iechyd meddwl i bwynt mynediad unigol i blant yn gam tuag at wella canlyniadau i blant.
4. Fel rhan o'r strategaeth lleihau plant sy'n derbyn gofal, mae'r panel Ymylon Gofal wedi cael ei adnewyddu i fod yn banel Atebion amlasiantaethol gyda ffocws ar gadw plant gartref yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn disgrifio penderfyniadau a wnaed yn y panel yn canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen ar y plentyn ac yn gam sylweddol ymlaen.

Yr hyn sydd angen ei wella:

1. Mae'n rhaid gwella cronolegau a chrynodebau o achosion i sicrhau bod plant yn cael budd o ymgysylltu ag ymarferwyr sy'n deall eu stori. Gan gynnwys cofnodi ymyriadau y rhoddyd cynnig arnynt a'r hyn sydd wedi gweithio'n dda.
2. Mae'n rhaid i asesiadau plant fynd i'r afael â phum elfen y broses asesu yn ddigonol. Mae'n rhaid cydnabod cryfderau'r teulu ac ystyried a mynd i'r afael â'r rhwystrau o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol.
3. Mae'n rhaid i ymarferwyr ganolbwyntio'n barhaus ar ganlyniadau i'r plentyn. Mae'n rhaid i asesiadau a chyfarfodydd cynllunio cyfreithiol fod yn amserol ac ni ddylent oedi penderfyniadau nac achosion llys.
4. Mae'n rhaid i gynlluniau/adolygiadau gofal a chymorth/amddiffyn ganolbwyntio ar y canlyniadau i'r plentyn, bod yn realistig ar gyfer teuluoedd, a galluogi pawb sy'n rhan o'r broses i ddeall a mesur cynnydd.
5. Mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol ymweld â phlant o fewn amserlenni statudol. Dylai rheolwyr fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn dyletswyddau statudol mewn amser real.

Partneriaethau

Cryfderau:

1. Mae'r bwrdd gwelliant cyflym yn gweithio'n effeithiol i lywio gwelliannau ar draws gwasanaethau plant. Mae ymarferwyr yn disgrifio'r dull newydd fel taith tuag at wella gyda thîm uwch-reolwyr sy'n canolbwyntio'n fwy ar blant.
2. Mae ymrwymiad corfforaethol cryf i wella gwasanaethau ar gyfer plant yn Wrecsam wedi sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae rheolwyr timau yn disgrifio mwynhau ymgysylltu â'r panel rhianta corfforaethol er mwyn mynd i'r afael â heriau strategol.
3. Mae trefniant cyllido Gwarcheidiaeth Arbennig dim niwed wedi cael ei gymeradwyo gan aelodau etholedig fel rhan o strategaeth lleihau plant sy'n derbyn gofal Wrecsam.
4. Mae cydberthnasau gwaith cadarnhaol â'r bwrdd diogelu rhanbarthol ac awdurdodau lleol cyfagos yng Nghymru yn sicrhau bod gan wasanaethau plant Wrecsam strwythur cymorth proffesiynol y gallant elwa ar ei brofiad, gwybodaeth a chymorth.
5. Mae patrymau gwaith newidiol mewn ymateb i'r pandemig wedi bod yn her enfawr ac yn gyfle i ddysgu. Mae cyfleoedd i brofi ffyrdd gwahanol o weithio wedi rhyddhau amser teithio a meithrin ymddiriedaeth rhwng rheolwyr ac ymarferwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella:

1. Mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol weithio mewn partneriaeth â rhieni ar sail gyfartal. Mae'n rhaid iddynt sicrhau bod rhieni yn cael gwybod am gyfleoedd i gael rhywun o'u dewis i'w cefnogi i gymryd rhan mewn asesiadau ac adolygiadau yn llawn
2. Mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol weithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gytuno ar nodau cyflawnadwy a realistig ar gyfer gwella. Mae'n rhaid cofnodi gwelliannau angenrheidiol yn glir a chyfathrebu hyn â theuluoedd.
3. Mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau gweithlu digonol, cymwys sydd â'r cymwysterau cywir i fodloni ei ddyletswyddau statudol. Mae Uwch-reolwyr yn parhau i ddefnyddio ffyrdd arloesol o oresgyn y diffyg hwn. Serch hyn, mae gallu'r awdurdod lleol i fodloni ei ddyletswyddau statudol yn parhau i fod wedi'i gyfaddawdu nes bod gweithwyr proffesiynol â chontractau parhaol yn llenwi swyddi gwag.
4. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gweithio ystwyth yn cael ei ategu gan dechnoleg ddibynadwy, sy'n gallu cefnogi gwaith cyfathrebu cyfrinachol â phartneriaid a theuluoedd statudol bob amser.

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion: Arolygiad Gwerthuso Perfformiad

Crynodeb:

Cynhaliwyd yr arolygiad gwerthuso perfformiad hwn o wasanaethau cymdeithasol i oedolion fel rhan o raglen beilot wedi'i chynllunio o waith ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng hydref 2020 a gwanwyn 2021.

Nid yw gwasanaethau i oedolion yn Wrecsam wedi profi'r un lefel o drosiant o reolwyr ac ymarferwyr â gwasanaethau plant Wrecsam. Nid yw ansawdd gwasanaethau oedolion wedi bod yn destun yr un lefel o bryderon â gwasanaethau plant ac felly nid ydynt wedi bod yn destun yr un lefel o graffu â gwasanaethau plant Wrecsam.

Rydym wedi nodi rhai gwelliannau amlwg o'n harolygiad blaenorol o wasanaethau i oedolion a gynhaliwyd yn 2018. Mae'r gwelliannau a nodwyd yn cynnwys goruchwyliaeth well gan reolwyr o arferion rheng flaen, hyder cynyddol wrth gomisiynu a rhai rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau yn lleihau.

Mae angen gwella rhai materion o hyd, gan gynnwys ymgysylltu annigonol â chydweithwyr ieched wrth ddarparu un pwynt mynediad i oedolion a gwasanaethau ieched meddwl cymunedol. Mae angen cryfhau gwaith integredig a threfniadau darparu gwasanaethau ieched a gofal cymdeithasol di-dor yn Wrecsam ac mae angen iddynt gael eu llywio gan weledigaeth strategol y cytunwyd arni ac y mae'r gwasanaeth yn berchen arni.

Nid ydym yn diystyru'r her o lywio gwelliant ar draws nifer o feysydd gwaith ar yr un pryd. Yn enwedig pan mae COVID-19 yn effeithio ar lawer o ymarferwyr ym maes ieched a gofal cymdeithasol mewn rhyw ffordd. Fodd bynnag, gydag amser, mae graddfa'r newid bresennol yn yr awdurdod lleol yn rhoi ychydig o sicrwydd y bydd materion sydd heb eu datrys mewn gwasanaethau oedolion yn gwella wrth i amser fynd yn ei flaen.

Mae gweithdrefnau diogelu oedolion yn Wrecsam yn effeithiol ac mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar atebion wedi'i ymgorffori'n gadarn. Mae tystiolaeth o'r broses ddiogelu a ddefnyddir i ategu sgysiau parhaus ag oedolion y gallent fod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae'r newid hwn mewn pwyslais, gan symud oddi wrth gwblhau'r broses ddiogelu fel canlyniad ynddo'i hun a thuag at ddefnyddio'r broses i ymgysylltu ag unigolion fel pobl y gallai fod angen cymorth arnynt, yn gadarnhaol iawn.

Mae ymarfer gwaith cymdeithasol, gan gynnwys casglu a chofnodi llais oedolion, yn dda ar y cyfan. Mae deall pwysigrwydd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 mewn gwasanaethau oedolion a dechrau sgysiau gyda'r dybiaeth fod oedolion yn gwybod beth sydd orau iddynt hwy eu hunain yn darparu sail gadarn ar gyfer gwaith cymdeithasol ag oedolion yn Wrecsam. Mae dull cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y gwasanaeth yn sicrhau bod lleisiau llawer o bobl yn cael eu clywed a'u bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Fodd bynnag, mae angen gwella nifer bach o feysydd gwasanaeth i oedolion er mwyn sicrhau y caiff lleisiau'r bobl eu clywed ac nad yw rhestrau aros diangen yn datblygu wrth drosglwyddo rhwng timau. Ni ddylai'r awdurdod lleol aros nes bod pobl mewn argyfwng cyn ymateb ac ni ddylent wneud penderfyniadau am gymhwysedd ar gyfer gwasanaethau yn seiliedig ar ddiagnosis na labelu.

Rydym yn darparu ein pwyntiau allweddol isod yng nghyd-destun pedair egwyddor Deddf 2014.

Pobl – llais a dewis

Cryfderau:

1. Yn y rhan fwyaf o dimau asesu, mae'r canlyniadau y mae'r oedolion am eu cyflawni yn cael eu cofnodi a'u deall yn dda.
2. Mae pwysigrwydd galluedd meddyliol wrth wneud penderfyniadau hyddysg wedi'i ymgorffori mewn ymarfer.
3. Mae asesiadau o alluoedd meddyliol yn dda ar y cyfan ac yn cael eu defnyddio ar adegau priodol.

Yr hyn sydd angen ei wella:

1. Mae'n rhaid ymgorffori dealltwriaeth o bwysigrwydd dechrau ymgysylltu ag oedolion drwy dybio eu bod yn gwybod beth sydd orau iddynt hwy eu hunain ym mhob maes gwasanaeth.
2. Dylai'r awdurdod lleol fyfyrion'n fwy cadarn ar ei ymarfer pan fydd yn gwrthod rhoi cymorth i unigolyn ar fwy nag un achlysur. Mae'n bwysig bod achosion yn cael eu hadolygu'n wrthrychol pan fydd ceisiadau am gymorth yn cael eu gwrthod ar fwy nag un achlysur.
3. Mae cymorth eiriolaeth ar gael. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y deuir i gytundeb ynghylch yr angen am eiriolaeth cyn gynted â phosibl, ac y caiff y cytundeb hwn ei gofnodi.
4. Nid yw lleisiau gofalwyr yn cael eu clywed yn gyson. Mae ychydig o ymarfer da yn y maes hwn ond weithiau nid oedd ymarferwyr yn glir o ran a oedd asesiadau gofalwyr wedi cael eu cynnal gan y trydydd sector na beth oedd y canlyniad. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol fodloni ei ddyletswydd statudol i gynnig asesiadau i ofalwyr a diwallu eu hanghenion lle y bo'n berthnasol.

Llesiant

Cryfderau:

1. Cydnabyddiaeth glir o bwysigrwydd sicrhau bod pobl yn cadw rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.
2. Defnydd da o broses ddiogelu i ymgysylltu â phobl mewn sgysiau ystyrion am eu diogelwch a'u llesiant.

3. Mae pob tîm wedi cwblhau archwiliad o'r cymorth a gynnigir i aelodau'r tîm i sicrhau bod ymarferwyr sy'n gweithio yn ystod COVID-19 yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Yr hyn sydd angen ei wella:

1. Mae'n rhaid i ymateb y gwasanaeth i anghenion a nodwyd ganolbwyntio ar angen, yn hytrach na chael ei bennu gan oedran neu ddiagnosis. Dylai rheolwyr herio achosion o osod trothwyon i eithrio pobl nad ydynt yn bodloni meini prawf y gwasanaeth ond a allai gael budd o gymorth.
2. Mae'n rhaid cofnodi rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau am oedolion y rhoddir gwybod eu bod mewn perygl bob amser, gan gynnwys penderfyniadau i beidio â chymryd camau gweithredu pellach.

Atal

Cryfderau:

1. Deallir pwysigrwydd rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gan gynnwys cynnig gwasanaethau cofleidiol i gefnogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain.
2. Mae cydnabyddiaeth o rôl teuluoedd a phartneriaid statudol a thrydydd sector eraill o ran cefnogi pobl yn y gymuned. Mae cydnabod cryfderau yn y gymuned yn galluogi ymarferwyr i gynnig ymyriad â ffocws cynnar a chanolbwyntio ar atebion.

Yr hyn sydd angen ei wella:

1. Mae'n rhaid gwella amseroldeb a chysondeb ymateb y gwasanaeth. Mae'n rhaid i uwch-reolwyr ddefnyddio eu goruchwyliaeth well o ymarfer rheng flaen i gefnogi rheolwyr timau i ddeall a gwella'r llif gwaith. Byddai uwch-reolwyr yn cael budd o wybodaeth reoli amser real.
2. Mae'n rhaid gwella amseroldeb cymorth therapi galwedigaethol. Mae model darparu cynaliadwy yn hanfodol er mwyn hyrwyddo annibyniaeth ac atal pobl rhag cyrraedd sefyllfa argyfyngus.
3. Mae'n rhaid gwella lefelau staffio a rhaid iddynt fod yn fwy sefydlog. Mae lefelau uchel o swyddi gwag a swyddi sydd wedi'u llenwi gyda gweithwyr asiantaeth yn rhoi pwysau ychwanegol ar aelodau parhaol o'r tîm y mae'n ofynnol iddynt gamu i fyny a llenwi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Mae'r awdurdod lleol mewn perygl o fethu â bodloni ei ddyletswyddau statudol os bydd aelodau allweddol o staff yn gadael y gwasanaeth neu ar adegau o absenoldeb salwch hirdymor.
4. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wella amseroldeb adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth i bobl sy'n cael gofal cartref. Mae'n bosibl nad yw rhai pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a gallai eraill fod yn cael gofal amhriodol.

Partneriaethau

Cryfderau:

1. Mae asiantau cymunedol wedi cael eu hymestyn er budd yr awdurdod lleol cyfan. Mae cyfle pellach i ddatblygu'r prosiect hwn yn unol â Deddf 2014.
2. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael budd o gymorth gan sefydliadau gwirfoddol a statudol yn ystod COVID-19. Gwnaethant siarad yn gadarnhaol am y buddiannau i'w llesiant. Roedd enghreifftiau o'r cymorth a ddarparwyd yn cynnwys galwadau ffôn rheolaidd, cymorth gyda siopa, casglu meddyginiaeth a grwpiau galw heibio rhithwir.
3. Mae gan y tîm diogelu gydberthynas waith dda â chydweithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn gweithio'n gymesur i fynd i'r afael â phryderon diogelu ar wardiau ysbytai yn ôl yr angen.
4. Mae gwersi cadarnhaol a ddysgwyd o gydweithio yn ne'r sir i osgoi derbyn pobl i'r ysbyty a chefnogi achosion cymhleth yn cynnig model cadarnhaol y gellid ystyried ei gyflwyno ar draws ardal yr awdurdod lleol.

Yr hyn sydd angen ei wella:

1. Mae cydweithio agosach rhwng timau diogelu plant ac oedolion. Dylai ymarferwyr mewn gwasanaethau oedolion allu gofyn am gael gweld ffeiliau achos plant yn ôl yr angen er mwyn mynd i'r afael â phryderon diogelu.
2. Mae ansawdd cydberthnasau strategol â'r trydydd sector yn anghyson ac mae'n rhaid iddynt wella. Gallai gwaith ymgysylltu pellach a chydgyllunio â'r trydydd sector wella gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal ledled Wrecsam; cynyddu cynaliadwyedd gwasanaethau a chynyddu dewis ar gyfer pobl y mae angen cymorth arnynt.
3. Mae'n rhaid i bartneriaethau strategol rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gallu gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau a chyflawni canlyniadau gwell i bobl ddatblygu ac aeddfedu yn gyflym. Mae'n rhaid i arweinwyr gydweithio'n effeithiol er mwyn dod o hyd i atebion a darparu gwasanaethau di-dor a chynaliadwy i bobl yn Wrecsam.